GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT

(PLYMOUTH STREET, KING GEORGE STREET, MOSTYN STREET A ROWDEN STREET, SHOTTON)

GORCHYMYN (TRAFFIG UNFFORDD) 202x

DATGANIAD O RESYMAU DROS ARGYMELL GWNEUD Y GORCHYMYN

Yn dilyn cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru, mae Cyngor Sir y Fflint wedi llwyddo i gael cyllid i weithredu mesurau diogelwch sylweddol er mwyn mynd i'r afael â thagfeydd a lleihau symudiadau cerbydau diangen ar hyd y llwybrau i Ysgol Croes Atti ac Ysgol Ty Fynnon.

Mae nifer o'r problemau a nodwyd ar hyd y llwybrau yn ymwneud â lefelau uchel o gerbydau'n cael eu defnyddio a thagfeydd cysylltiedig yn yr ardaloedd yn agos at yr ysgol ac ar hyd nifer o lwybrau i'r ysgol.

Yn y blynyddoedd diweddar, mae Cyngor Sir y Fflint wedi cael nifer o bryderon gan breswylwyr, disgyblion, rhieni, staff addysgu ac Aelodau Lleol oherwydd pryderon ynghylch lefelau cynyddol o dagfeydd a chyflymder traffig o amgylch yr ysgol.

Gan ystyried yr uchod, cynigir ymestyn y system Unffordd sy'n bodoli ar King George Street o'r mynediad i Faes Parcio Charmleys Lane i'r gyffordd gyda Mostyn Street.

Bydd y strydoedd Unffordd presennol ar Plymouth Street, King George Street, Mostyn Street a Rowden Street yn parhau ac yn caniatáu i feicwyr fynd ar hyd y ffyrdd i gyfeiriad ble mae cerbydau wedi eu gwahardd.

Mae'r Cyngor Sir yn parhau â'i gyfrifoldeb i ystyried darpariaeth symudiad cyfleus a diogel cerbydau modur a thraffig arall, ac mae'r mesurau a gynigir yn ceisio sicrhau bod y perygl yn cael ei leihau tra'n sicrhau bod traffig yn teithio'n ddiogel ac yn effeithiol.

Ceir manylion y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac maent wedi eu cynnwys yn y Gorchymyn Drafft arfaethedig.

Dyddiedig 22 Ionawr 2021

Stephen O Jones,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NF.